

## Dod i ddeall hanfodion iechyd planhigion...



Byddem yn dyfalu bod sicrhau ansawdd y planhigion rydych chi'n eu cynhyrchu yn weddol uchel ar eich rhestr blaenoriaethau. Ond mae ansawdd yn golygu rheoli iechyd planhigion, ac mae p'un a ydynt wedi'u heintio â chlefydau neu a oes plâu yn amharu arnynt yn effeithio'n fawr iawn ar hynny. Oeddech chi'n gwybod bod y Cenhedloedd Unedig wedi cyhoeddi mai 2020 fydd Blwyddyn Genedlaethol Iechyd Planhigion? Felly, i groesawu'r flwyddyn newydd, byddwn ni'n ymchwilio i hanfodion iechyd planhigion ac yn rhoi gwybodaeth, argymhellion ac adnoddau i chi er mwyn sicrhau bod eich planhigion yn cadw'n iach.

## Diogelu planhigion, diogelu bywydau...

Beth am ddechrau drwy ddeall pam mae'r Cenhedloedd Unedig yn rhoi gymaint o bwyslais ar Iechyd Planhigion yn ystod 2020. Mae planhigion yn gyfrifol am 80% o'r bwyd rydyn ni'n ei fwyta a'i gynhyrchu, ac am 98% o'r ocsigen rydyn ni'n ei anadlu. Mae'r Sefydliad Bwyd ac Amaeth yn amcangyfrif bod angen i gynhyrchiant amaethyddol gynyddu tua 60% erbyn 2050 er mwyn bwydo poblogaeth fwy. Fodd bynnag, mae planhigion y byd dan fygythiad cyson, ac mae'r amcangyfrifon yn nodi bod hyd at 40% o gnydau bwyd yn cael eu dinistrio bob blwyddyn o ganlyniad i blâu a chlefydau, sy'n golygu bod pobl yn mynd heb fwyd a bod hyn yn cael effaith negyddol ar y diwydiant amaeth yn sgil colli cynnyrch ac incwm.

Beth sy'n cyfrannu at fygwth iechyd planhigion? Mae bioddiogelwch isel, hylendid gwael yng nghyswllt planhigion a methu rheoli rhywogaethau goresgynnol i raddau digonol yn caniatáu i blâu a chlefydau ymledu ar raddfa eang. Ar yr un pryd, mae teithio a masnach ryngwladol wedi treblu dros y degawd diwethaf, sy'n gallu lledaenu plâu a chlefydau yn gyflym o gwmpas y byd. Mae hyn yn arwain at golli ecosystemau, colledion economaidd sylweddol a methu tyfu cnydau penodol.



Epidemigau (a elwir hefyd yn epiffytotigau mewn planhigion) yw pan mae lefel y clefyd yn cynyddu'n sydyn ac yn ddigon sylweddol i ddinistrio nifer fawr o blanhigion. Mae epidemigau yn digwydd oherwydd unffurfiaeth genedig mewn cynydu ungnwd neu pan mae nifer fawr o blanhigion brodorol neu blanhigion amaethyddol yn dueddol o gael y clefyd dan sylw (pathogen estron neu deip newydd o'r pathogen gan amlaf).

Yn aml, mae'n amhosib dileu plâu a chlefydau planhigion ar ôl iddynt ymsefydlu, ac mae eu rheoli yn broses ddrud sy'n cymryd llawer o amser. Dyma pam mae Blwyddyn Ryngwladol Iechyd Planhigion 2020 yn rhoi pwyslais ar atal a diogelu fel dau beth pwysig i ganolbwyntio arnynt. Mae diogelu planhigion rhag plâu a chlefydau yn llawer mwy cost-effeithiol na delio ag argyfyngau, felly mae atal yn hollbwysig er mwyn osgoi effaith ddinistriol plâu a chlefydau ar amaethyddiaeth, bywoliaeth a diogelwch bwyd.

Rhywbeth arall mae Blwyddyn Ryngwladol Iechyd Planhigion 2020 yn canolbwyntio arno yw diogelu'r amgylchedd. Mae'r Sefydliad Bwyd ac Amaeth yn annog ffyrdd eco-gyfeillgar o ddelio â phlâu, fel rheoli plâu yn integredig. Mae defnyddio cyn lleied o sylweddau gwenwynig â phosib wrth ddelio â phlâu yn amddiffyn yr amgylchedd, yn ogystal â pheillwyr, gelynyddion naturiol plâu, rhywogaethau buddiol a'r bobl a'r anifeiliaid sy'n dibynnu ar blanhigion.

---

*Mae Blwyddyn Ryngwladol Iechyd Planhigion yn gyfle unigryw i godi ymwybyddiaeth o sut gall amddiffyn iechyd planhigion helpu i roi diwedd ar newyn, lleihau tlodi, amddiffyn yr amgylchedd a rhoi hwb i ddatblygiad economaidd – Y Sefydliad Bwyd ac Amaeth*

---

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Blwyddyn Ryngwladol Iechyd Planhigion 2020, yn ogystal â manylion digwyddiadau a chynadleddau drwy gydol 2020: <http://www.fao.org/plant-health-2020>

## Sut mae hyn yn effeithio arnaf fi?

Er mwyn gwerthu planhigion o ansawdd uchel, mae angen i chi gynhyrchu planhigion iach. Mae plâu a chlefydau yn arwain at golledion o ran cynhyrchu a gwerthu.

Fel tyfwr mae angen i chi allu adnabod y plâu a'r pathogenau a allai effeithio ar eich cnwd. Felly mae angen i chi ddeall sut mae trin y plâu a'r pathogenau i sicrhau eich bod yn cael cnwd da ar ddiwedd y cylch, a lleihau'r risg o golli cynydu lle byddech efallai wedi gallu osgoi hynny drwy adnabod plâu a chlefydau yn gynt.

---

*“Caiff sicrhau iechyd planhigion ei hystyried yn ddisgyblaeth sy’n defnyddio amryw o fesurau i reoli ac atal plâu, chwyn a chlefydau rhag achosi i rywogaethau ymledu i feysydd newydd, yn enwedig drwy ryngweithiad pobl, fel masnach ryngwladol.” -*

---

### **Dyma rai diffiniadau:**

- Pla – anifail sy’n achosi difrod i blanhigion e.e. pryf, cnofil, nematod
- Pathogen – organeb sy’n achosi difrod mewn planhigion e.e. ffwng, bacteria, firsau
- Clefyd – y casgliad o symptomau sy’n cael eu hachosi gan bathogen
- Anhwylder – problem i blanhigion sy’n cael ei hachosi gan elfen ffisiolegol e.e. rhew

Oeddech chi’n gwybod fod Defra wedi sefydlu cofrestr risgiau iechyd planhigion? Heddiw, mae’r gofrestr hon yn rhestru dros 1,000 o wahanol blâu a phathogenau sy’n fygythiad posib i gnydau neu i amgylchedd naturiol y DU. Ydych chi’n gwybod pa blâu a phathogenau sy’n peri’r risg fwyaf i’ch cnydau? Fyddech chi’n eu hadnabod nhw?

Mae Porth Gwybodaeth am Iechyd Planhigion y DU rhoi gwybodaeth am blâu a chlefydau planhigion, gan gynnwys asesiadau o risg, dolenni i wefannau eraill o ddiddordeb a gwybodaeth am wasanaethau a dulliau rheoli iechyd planhigion sy’n cael eu darparu gan y llywodraeth.

### **O ble mae plâu a chlefydau yn dod?**

Oherwydd bod y tymheredd yn codi, mae mwy o blâu planhigion yn ymddangos yn gynharach yn y flwyddyn ac mewn lleoedd nad ydynt wedi’u gweld erioed o’r blaen. Mae newid hinsawdd hefyd yn bygwth swm, cynhyrchiant, a gwerth maethlon y cnydau. Rhaid cofio’r pryfed buddiol hefyd, sy’n hanfodol er lles planhigion – er mwyn peillio, rheoli plâu, sicrhau iechyd y pridd ac ailgylchu maetholynnau – serch hynny, mae niferoedd pryfed wedi gostwng 80% yn y 25-30 mlynedd ddiwethaf\*.


### **Dyma rai enghreifftiau o beth all achosi i blâu a chlefydau ymledu:**

- Gwynt e.e. clefyd (Chalara) coed ynn
- Gwasgariad dŵr yn tasgu a glaw e.e. clwy tatws
- Dŵr dyfrhau a phridd e.e. clefyd tampio pythium
- Stoc wedi’i heintio
- Anifeiliaid sy’n trosglwyddo clefydau e.e. llyslau sy’n trosglwyddo firsau
- Mewnforion rhyngwladol e.e. paledau pren, ffrwythau



## ***Beth mae modd ei wneud i leihau'r effaith ar Iechyd Planhigion?***


Yn ôl Blwyddyn Genedlaethol Iechyd Planhigion 2020, mae gan bob un ohonom rôl i'w chwarae er mwyn lleihau effaith plâu a chlefydau. Mae'r ymgyrch yn annog y cyhoedd i fod yn ymwybodol o'r risgiau cysylltiedig â symud planhigion a chynnyrch planhigion – a allai gynnwys plâu a chlefydau – ar draws ffiniau. Maent hefyd yn cynghori defnyddwyr i fod yn ofalus wrth brynu cynnyrch planhigion ar-lein a thrwy wasanaethau post sy'n gallu osgoi rheolaethau sicrhau iechyd planhigion. Mae'r ddelwedd isod yn dangos y prif negeseuon sy'n cael eu hamlygu yn yr ymgyrch:



Gall tyfwyr gymryd camau i amddiffyn eu cnydau rhag plâu a chlefydau drwy ddeall y risgiau i'w cnydau a monitro iechyd planhigion yn rheolaidd. Gallant atal plâu rhag ymledu drwy ddefnyddio eginblanhigion a hadau gwrth-bla sydd wedi'u hardystio yn unig, a chofnodi'r plâu sy'n digwydd ar eu safleoedd yn rheolaidd. Gellir rhoi arferion rheoli plâu eco-gyfeillgar ar waith, gan gynnwys y rheini sy'n seiliedig ar ddulliau biolegol nad ydynt yn lladd peillwyr neu bryfed a rhywogaethau buddiol.

Gall masnach gynyddu'r risg bod plâu a chlefydau planhigion yn ymledu, felly er mwyn masnachu'n ddiogel, mae'n bwysig gweithredu'r safonau a'r arferion rhyngwladol o ran iechyd planhigion. Mae hyn yn lleihau effaith negyddol plâu a phlaladdwyr ar iechyd pobl, yr economi a'r amgylchedd. Mae hefyd yn ei gwneud yn haws rheoli ac atal plâu a chlefydau rhag ymledu heb roi mesurau diangen ar waith i rwystro masnach.

## Beth sy'n lleihau'r tebygolrwydd o epidemigau?



## Beth yw rôl deddfwriaeth yn hyn i gyd?

Os ydych yn mewnfario neu'n allfario eich cynnyrch, bydd angen hefyd i chi ddod i deall y ddeddfwriaeth ar iechyd planhigion, sy'n rheoli mewnfario a symud rhai planhigion, hadau a deunydd organig fel pridd, tatws, llysiau, blodau wedi'u torri, deiliach a grawn.

I wneud pethau yn fwy cymhleth eto, mae'r mesurau rheoli yn gwahaniaethu yn ôl y rhywogaeth ond gallent gynnwys yr angen am ddsbarthiad nwyddau, tystysgrif ffytoiechydol, pasbort planhigion a/neu ofynion archwilio. Mae'n bwysig eich bod chi fel tyfwr yn deall y ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i chi a'ch bod yn ymwybodol o bethau fel pasbortau planhigion a sut mae cael pasbortau planhigion a thystysgrifau ffytoiechydol.

Mae Iechyd Planhigion yn fater sydd wedi'i ddatganoli i Gymru o dan Ddeddf Iechyd Planhigion 1967 (fel y'i diwygiwyd). Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, yr Arolygiaeth Iechyd Planhigion a Hadau a Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae Pasbortau Planhigion yn sicrhau bod modd olrhain planhigion a chynnyrch planhigion ledled y gadwyn gyflenwi, sy'n hanfodol er mwyn cynnal bioddogelwch. Mae Pasbort Planhigion yn label swyddogol ar gyfer symud planhigion a chynnyrch planhigion rheoledig o fewn yr UE. Mae'n sicrhau bod y planhigion neu'r cynnyrch perthnasol yn cydymffurfio â'r holl ofynion o ran iechyd planhigion, er enghraifft, nad yw'n cynnwys plâu a chlefydau penodol.



Ond beth yw'r gwahaniaeth rhwng Pasbort Planhigyn a Thystysgrif Ffytoiechydol? Tystysgrif fyd-eang sy'n cael ei defnyddio at ddibenion bioddiogelwch yw'r dystysgrif ffytoiechydol, ac mae'n hanfodol ar gyfer planhigion a chynnyrch planhigion rheoledig sy'n cael eu mweforio i'r DU o 3ydd gwledydd (nad ydynt yn yr UE) neu sy'n cael eu hallforio o'r DU i 3ydd gwledydd. Caiff Tystysgrifau Ffytoiechydol eu cyflwyno gan yr awdurdod cymwys. Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) yw hwn yng Nghymru a Lloegr.

Ar gyfer symudiadau mewnol yn yr UE yn unig mae Pasbortau Planhigion, ac maent yn labeli penodol i'r UE. Caiff y rhain eu dyfarnu gan weithredwyr awdurdodedig (rhoddir awdurdodiad gan yr awdurdod cymwys). Nid yw'r rhestr o blanhigion a chynnyrch planhigion y mae angen Tystysgrif Ffytoiechydol ar eu cyfer yr un fath â'r rhestr y mae angen Pasbort Planhigion ar eu cyfer.

Ac i wneud pethau'n fwy cymhleth byth, mae angen ystyried Goblygiadau Brexit hefyd. Os ydych yn fewnforiwr neu'n allforiwr, mae'n bosib iawn y gallai eich rheoliadau ar gyfer mweforio planhigion newid – mae hyn i gyd yn dibynnu ar ganlyniadau'r trafodaethau Brexit. Mae hyn yn debygol o effeithio ar dariffau ac ar ddeddfwriaeth iechyd planhigion. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf drwy fynd i'r canlynol:

## Adnoddau

### Y Porth Gwybodaeth am Iechyd Planhigion

I gael rhagor o wybodaeth am y pwnc yma, ewch i'r Porth Gwybodaeth am Iechyd Planhigion a manteisio ar yr adnoddau sydd ar gael ynddo:

<https://planthealthportal.defra.gov.uk/>

Mae'r Porth Gwybodaeth am Iechyd Planhigion yn rhoi gwybodaeth am blâu a chlefydau planhigion, gan gynnwys asesiadau o risg, dolenni i wefannau eraill o ddiddordeb a gwybodaeth am wasanaethau a dulliau rheoli iechyd planhigion sy'n cael eu darparu gan y llywodraeth.

### Cofrestr Risgiau i Iechyd Planhigion y DU

Defra sy'n gyfrifol am sefydlu a chynnal y Gofrestr Risgiau i Iechyd Planhigion y DU, sef adnodd at ddefnydd y llywodraeth, diwydiant a rhanddeiliaid er mwyn blaenoriaethu camau gweithredu yn erbyn plâu a chlefydau sy'n bygwth ein cnydau, ein coed, ein gerddi a chefn gwlad. I gael mynediad at y gofrestr risgiau, ewch i:

<https://secure.fera.defra.gov.uk/phiw/riskRegister/>

## Gwefannau

Gwnewch yn siŵr eich bod yn edrych ar gyngor y DU; mae gan wahanol wledydd wahanol glefydau, gwahanol rywogaethau lletyol a gwahanol driniaethau a ganiateir.

Clefydau coed <https://www.gov.uk/guidance/find-a-specific-tree-pest-or-disease>

Planhigion addurnol <https://www.rhs.org.uk/advice/plant-problems/diseases-disorders>

## Ffynonellau y gellir tanysgrifio iddynt:

AHDB

HTA

Wythnos Garddwriaeth (taflenni ffeithiau a rhybuddion am glefydau)

## Llyfrau:

RHS Pests and Diseases, Pippa Greenwood ac Andrew Halstead

Collins. Pests, diseases and disorders of garden plants 4ydd argraffiad Stefan Buczacki a Keith Harris

## Gwasanaethau ymgynghori:

Y Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol

<https://www.adas.uk/Service/disease-management-plants>

<https://www.adas.uk/Service/pest-management-and-entomology>

Clinig Planhigion yr Asiantaeth Ymchwil Bwyd a'r Amgylchedd

<https://www.fera.co.uk/crop-health/plant-clinic>

Gwasanaeth Cynghori a Diagnostig Forest Research ar Iechyd Coed

## Beth ydyn ni wedi'i ddysgu?

- Mae amcangyfrifon yn nodi bod hyd at 40% o gnydau bwyd yn cael eu dinistrio bob blwyddyn o ganlyniad i blâu a chlefydau. Mae bioddiogelwch isel, hylendid gwael yng nghyswllt planhigion a methu rheoli rhywogaethau goresgynnol i raddau digonol yn caniatáu i blâu a chlefydau ymledu ar raddfa eang.



- Mae'r Cenhedloedd Unedig wedi datgan mai 2020 fydd Blwyddyn Genedlaethol Iechyd Planhigion, ac yn nodi bod hwn yn gyfle unigryw i godi ymwybyddiaeth. Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio'r adnoddau, y digwyddiadau a'r deunyddiau sydd ar gael.
- Mae defnyddio cyn lleied o sylweddau gwenwynig â phosib wrth ddelio â phlâu yn amddiffyn yr amgylchedd, yn ogystal â pheillwyr, gelynon naturiol plâu, rhywogaethau buddiol a'r rheini sy'n dibynnu ar blanhigion.
- Mae Defra wedi sefydlu cofrestr risgiau iechyd planhigion. Heddiw, mae'r gofrestr hon yn rhestru dros 1,000 o wahanol blâu a phathogenau sy'n fygythiad posib i gnydau ac i amgylchedd naturiol y DU.
- Defnyddiwch yr adnoddau sydd ar gael ar y Porth Iechyd Planhigion a Chofrestr Risgiau Iechyd Planhigion y DU.
- Ystyriwch sut gallai plâu a chlefydau effeithio ar eich busnes. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael cyngor am fonitro, adnabod a thrin plâu a chlefydau, a'ch bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddeddfwriaeth.
- Ar gyfer symudiadau mewnol yn yr UE yn unig mae pasbortau planhigion, ac maen nhw'n cael eu dyfarnu gan weithredwyr awdurdodedig (rhoddir awdurdodiad gan yr awdurdod cymwys).
- Tystysgrif fyd-eang sy'n cael ei defnyddio at ddibenion bioddiogelwch yw'r dystysgrif ffytoiechydol, ac mae'n hanfodol ar gyfer planhigion a chynnyrch planhigion rheoledig sy'n cael eu mewnfario i'r DU o 3<sup>ydd</sup> gwledydd neu sy'n cael eu hallfario o'r DU i 3<sup>ydd</sup> gwledydd.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am Brexit, oherwydd gallai deddfwriaeth, prosesau a thariffau effeithio ar sut rydych chi'n gwerthu'ch cynnyrch y tu allan i'r DU.

**Gobeithio bod y daflen wybodaeth hon wedi bod yn ddefnyddiol. Os oedd hi, cadwch lygad am rifynnau nesaf ein Gweithdai Iechyd Planhigion yn fuan yn y flwyddyn newydd.**

**Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â [tyfucymru@lantra.co.uk](mailto:tyfucymru@lantra.co.uk) neu ffonio 01982 552646**